## ATODLEN 1

**Erthygl 4(1)**

## SPECIFIED COMMUNITY PROVISIONS APPLICABLE TO COMMUNITY VESSELS AND MAXIMUM FINES ON SUMMARY CONVICTION

| *Colofn 1* **Y ddarpariaeth yn Rheoliad y Cyngor** | *Colofn 2* **Y pwnc** | *Colofn 3* **Uchafswm y ddirwy ar gollfarniad diannod** |
|---|---|---|
| 1. Erthygl 6.1, i'r graddau bod y paragraff hwnnw yn ymwneud â chadw pysgod ar fwrdd cwch neu eu glanio. | Gwaharddiadau ar gadw ar fwrdd y cwch, neu lanio, haldiadau allan o stociau y mae cyfanswm yr haldiadau a ganiateir, neu gwotâu, wedi'u pennu ar eu cyfer, a'r rheiniwedi'u dihysbyddu. | £50,000. |
| 2. Erthygl 6.1, i'r graddau bod y paragraff hwnnw yn ymwneud â chyfansoddiad yr haldiad neu ddidoli'r haldiad. | Gwaharddiadau mewn amgylchiadau penodol ar gadw ar fwrdd y cwch, neu lanio, haldiadausydd â chyfansoddiad penodol neu sydd wedi'u didoli. | Yr uchafswm statudol. |
| 3. Erthygl 6.2. | Gwaharddiad ar lanio haldiadau sydd heb eu didoli ac sy'n cynnwys penwaig pan yw'r cyfyngiadau ar haldiadau a nodir yn Atodiad II i Reoliad y Cyngor wedi'u dihysbyddu. | £50,000. |
| 4. Erthygl 8 ac Atodiad IV paragraffau 2 a 6. | Gwaharddiad ar lanio haldiadau sy'n cynnwys penwaig heb eu didoli mewn harbyrau lle nad oes systemau samplu digonol ar gael(**1**).<br><br>Gwaharddiad ar gynnig gwerthu penwaig i bobl eu bwyta, a'r rheini'n benwaig a ddaliwyd yn yr ardaloedd a bennir yn Atodiad IV paragraff 6 gan gychod yn cario rhwydi i'w tynnu ac isafswm maint eu masgl yn llai na 32mm ac wedi'u glanio. | Yr uchafswm statudo. |

(**1**) Hynny yw, unrhyw harbwr heblaw harbwr y mae Erthygl 2(24) yn cyfeirio ato.